Department for Environment, Food & Rural Affairs

Y Tîm tipio anghyfreithlon
Seacole Block
Llawr Gwaelod
2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF

Annwyl Ymgynghorai,

**Tipio anghyfreithlon: pwerau i awdurdodau lleol roi rhybuddion amodol i droseddwyr - Delio â phobl sy'n tipio'n anghyfreithlon yn barhaus**

Rydym yn gofyn am eich barn ar gyflwyno pŵer i awdurdodau lleol roi rhybuddion amodol i droseddwyr sy'n tipio'n anghyfreithlon. Rydym yn eich gwahodd i rannu unrhyw wybodaeth am yr effaith debygol ar erlyniadau, gofynion gweithredu, costau, arbedion posibl drwy waith glanhau gan droseddwyr, a'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i oruchwylio gweithgarwch o'r fath. Rydym hefyd yn gofyn am farn ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu amgylcheddol, ac a fyddai mesurau eraill yn fwy effeithiol i atal tipio anghyfreithlon.

Mae'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru ac i Loegr.
Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar wefan ymgynghori Defra:
- Dolen i'r ymgynghoriad Saesneg
- Dolen i'r ymgynghoriad Cymraeg

**Ymatebion**

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn bennaf drwy borth ar-lein Citizen Space. Fodd bynnag, byddwn yn derbyn ymatebion drwy e-bost a chopïau caled gan y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio'r arolwg ar-lein i ymateb. Cysylltwch â ni drwy'r manylion a ddarperir os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn. A fyddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r cais am dystiolaeth yn un o'r ffyrdd canlynol:

**Ar-lein**: gan ddefnyddio hyb ymgynghori Citizen Space Defra. Er hwylustod dadansoddi, byddai ymatebion drwy lwyfan Citizen Space yn cael eu ffafrio, os yw'n bosibl, ond mae opsiynau eraill ar gael os oes angen.
https://consult.defra.gov.uk/fly-tipping-and-litter-policy/conditional-caution-powers-to-local-authorities/

**Drwy anfon e-bost** at: cleanuppads.defra.gov.uk
neu **drwy'r post**:
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Y Tîm tipio anghyfreithlon
Seacole Block
Llawr Gwaelod
2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF

Dim ond i'r cwestiynau sy'n berthnasol i chi y mae angen i chi ymateb. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i ateb pob adran, a gallwch adael yn wag unrhyw rannau nad ydynt yn berthnasol i chi, eich busnes neu eich sefydliad. Fodd bynnag, rhaid i bob ymatebydd lenwi'r adran 'Amdanoch chi' cyn y gallwch gyflwyno eich ymateb i'r arolwg ar-lein. Dylid ymateb erbyn Hanner nos ar 16 Hydref 2026.

**Meini prawf ymgynghori**
Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag “Egwyddorion Ymgynghori” Swyddfa’r Cabinet. Dylid cyflwyno unrhyw gŵyn am broses yr ymgynghoriad ar y cyd hwn a’r cais am dystiolaeth i’r Cydlynydd Ymgynghori drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk.

**Cyfrinachedd a diogelu data**
Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi’i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a’r ymarfer galwad am dystiolaeth sydd ar gael yma.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag “Egwyddorion Ymgynghori” Swyddfa'r Cabinet a gellir gweld y rhain yn: Microsoft Word - Consultation Principles (1).docx (publishing.service.gov.uk)

Diolch am eich cymorth yn hyn o beth. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni uchod.

Yn gywir,
Tîm tipio anghyfreithlon Defra
cleanupsquads@defra.gov.uk